

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Ionawr 2024 am 7:00 yr hwyr.

Presennol

John Brinley Jones (C)

David Andrew Parry, Hywel James Sinclair Evans, Gwenllian Davenport Hughes, Greta Hughes, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith, Thomas Victor Jones, Kevin Wheatley, Ann Llwyd (Cyfieithydd) Carys Jones (Clerc)

1. Ymddiheuriadau

William Roger Jones

2. Datgan Buddiant

Dim

3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 28 Tachwedd 2023

Cynnig: Ian Goronwy Williams

Eilydd: Thomas Victor Jones

4. Unrhyw Fater Brys

Cais Cynllunio Lôn Pin Solar C23/0338/38/LL

Adroddodd y Cadeirydd fod cais wedi cael ei gyflwyno ddiwedd Rhagfyr, ar ôl proses hir. Mae'n gais llawn i osod paneli solar (PV) er mwyn creu fferm solar 4.99MW. Nododd ei fod wedi ehostio'r aelodau ac wedi gwahodd sylwadau am y cais.

Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod wedi mynegi ei wrthwynebiad ar y sail fod y lleoliad yn dir amaethyddol da ddylai gael ei ddefnyddio i fwydo'r gymuned leol. Nododd fod y tir yn y lleoliad yma wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd ar gyfer ffermio a chadw gwartheg godro da. O ganlyniad, roedd yn bryderus iawn am effaith y cynllun ar ffermwyr lleol. Mynegodd bryder hefyd am effaith y cynllun ar yr olygfa yn yr ardal, y posibilrwydd o ehangu pellach yn y dyfodol a llonyddwch trigolion lleol.

Cytunodd Hywel James Sinclair Evans gan ychwanegu y byddai cynllun o'r fath yn amharu ar fywydau pobl tra'n cael ei adeiladu. Mynegodd bryder hefyd y byddai'r cynllun yn arwain at gwmni preifat yn mynd ag elw o'r ardal.

Eglurodd Greta Hughes fod y cais yn anodd i'w ddarllen ac fod ganddi nifer o bryderon am y cais. Yn gyntaf, mae llwybr troed pwysig o Lanbedrog i Nefyn yn mynd trwy un cae. Nid yw'r llwybr ar y map, ond mae o wedi ei gynnwys yng ngorff y cais. Nododd fod hyn yn gamarweiniol. Yn ail, nododd Greta Hughes ei bod yn bryderus am y diffyg ystyriaeth i hofrenyddion fyddai'n hedfan uwchben lleoliad y fferm solar a nododd fod man glanio'r Ambiwylans Awyr yn agos iawn at y lleoliad dan sylw a bod nifer o hofrenyddion yn glanio ar diroedd cyfagos. Yn drydydd, nododd nad oedd yr adroddiad yn drwyadl o gwbl ac nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i fywyd gwyllt. Nid oes unrhyw ystyriaeth chwaith i danwydd, sut a ble y byddai'n cael ei storio a'i warchod. Nododd mai lleoliad un camera diogelwch sydd yn

cael ei ddangos ar y cynllun, ond fod yna gyfanswm o unarddeg o gameau i gyd, sydd eto'n gamarweiniol. Nododd ymhellach ei bod yn bwysig gwneud safiad yn erbyn cynllun o'r fath, rhag gosod cynsail peryglus ar gyfer y dyfodol. Ymhellach, ni fudd cynllun o'r fath yn dod â budd economaidd i'r gymund leol. Nododd hefyd fod lleoliad y cais arfaethedig sydd gan yr Adran Gynllunio ar y wefan yn anghywir. Dylid ymestyn y ffin hyd ar Lôn Pin, felly yn gwneud safle'r cais ddwy waith y maint. Nid yw map yr Adran Gynllunio yn dangos lleoliad adeilad brics fydd angen ei adeiladu (fel rhan o'r cynllun) i gysylltu'r pŵer o'r safle i'r grid cenedlaethol. Dywedodd fod ansawdd y cais yn ei phoeni.

Nododd David Andrew Parry ei fod yn cytuno a'i bod yn bryd gwneud safiad yn erbyn cwmnïau mawr fel hyn yn dod i gymuned leol i wneud elw mawr.

Cynnigiodd Ian Goronwy Williams fod y Cyngor Cymuned yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i wneud sylw ar ansawdd y cais.

Nododd Kevin Wheatley ei fod yntau yn bryderus am osod cynsail ar gyfer cynlluniau o'r fath yn y dyfodol ac oblygiadau'r cynllun i ffermwyr lleol.

Eglurodd y Cadeirydd fod pedwar cae yn y manylion gwreiddiol. Ymddengus nad yw y safle i gyd wedi ei gynnwys yn y linell goch. Awgrymodd y dylid cael arolwg archeolegol cyn dechrau'r gwaith. Mynegodd bryder hefyd, pe bai'r cynllun yn cael ei gymweddwy, pwy fyddai'n gyfrifol am ddod â safon y tir yn ôl i'r hyn oedd o cyn y datblygiad, ar ddiwedd oes y cynllun?

Holodd Gwenllian Davenport Hughes, pe cai'r cais yn cael ei gymeradwyo a Llanbedrog yn cael arian o'r cynllun, beth fyddai'n digwydd pe bai'r cwmni'n cael ei werthu?

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n syniad i aelod o'r Cyngor Cymuned gael sgwrs hefo Angela, Y Cynghorydd Sir.

Nododd Greta Hughes fod rhaid gwneud penderfyniad ar sail beth sydd yn y cais a'i bod hi'n bwysig cael ffeithiau cywir. Cynnigiodd, ar sail y cwestiynau sydd wedi codi a'r pryderon sydd wedi cael eu nodi fod yr aelodau'n gwrthod y cais.

Eilydd: Ian Goronwy Williams.

O blaid gwrthod y cynnig: 8

Atal pleidlais: 1

3. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion:

Adroddodd Ian Goronwy Williams ei fod wedi siarad hefo Keith Williams am y sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Nododd fod Keith Williams wedi bod yn aelod o'r Cyngor o'r blaen ac aelod o Bwyllgor y Neuadd. Mae o wedi anfon manylion i sylw'r Cyngor.

Cynigiodd ei ddebyn fel aelod o Gyngor Cymuned Llanbedrog.

Eilydd: Gwenllian Davenport Hughes.

Pawb o blaid.

Precept

Adroddodd y Cadeirydd fod manylion y precept wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd dydd lau diwethaf. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn ebost gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y wybodaeth wedi cael ei dderbyn.

Hyfforddiant I'r Clerc

Nododd y Cadeirydd y byddai'n syniad da i'r clerc gael hyfforddiant am sut i wneud audit / materion arianol. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Clerc yn cysylltu hefo Unllais Cymru i holi am hyfforddiant addas ar gyfer clercod newydd.

5. Anaf Personol

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ymateb i ebost gan Gwmni Strain ac wedi rhannu manylion am gwmni ysiwran y Cyngor Cymuned.

6. Cais am Gyfraniad Arianol CFFlEryri

Amgrymodd y Cadeirydd fod y cais yn cael ei drafod ar ddiwedd y flwyddyn arianol, yn ôl yr arfer.

7. Llwybrau

Rhestrodd y Cadeirydd bedwar o leoliadau sydd yn gysylltiedig â'r tendr sef:

1. Cae chwarae
2. Cae Pentref Llan
3. Y Fynwent
4. Llwybrau Cyhoeddus

Awgrymwyd cynnwys y geiriau o dorri "yn ôl yr angen" rhwng Ebrill a Hydref yn y tendr newydd. Nododd y Cadeirydd fod amllder y torri yn y fynwent yn dibynu ar y tywydd. Yn ystod tymor gwlyb mae'r gwellt yn tyfu'n gynt.

Cae Pentref Llan

Dywedodd Greta Hughes fod angen ychwanegu y llecyn o flaen yr Eglwys ar angen i lanhau yr afon yn y tendr newydd.

Nododd Thomas Victor Jones y dylid nodi pa lwybrau a pha bryd y dylid eu torri yn y tendr newydd. Awgrymodd fod y llwybrau yn cael eu monitro o fis Mawrth ymlaen i osgoi gordyfiant ac i gadw'r llwybrau'n glir.

Nododd Ian Goronwy Williams fod dau fachgen lleol (Iago Tudor a Dafydd Llŷr) wedi cynnig cerdded y llwybrau lleol.

8. Y Fynwent Newydd

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi ebostio Glyn o'r Adran Gynllunio. Nododd nad oedd o wedi clywed dim gan y Bwrdd Dŵr. Awgrymodd Thomas Victor Jones fod rhywun yn mynd o weld perchenog Cae Bryn Gro. Holodd Alan Harper-Smith os oes unrhyw gyfyngiad amser ar y cais cynllunio? Nododd y Cadeirydd ei bod yn rhwystredig gorfod disgwyl cyhyd am wybodaeth gan y Bwrdd Dŵr ac nad yw'r cwmni yn gwybod yn iawn ble mae ei peipen.

9. Cae Chwarae

Adroddodd Hywel James Sinclair Evans fod pwyllgor y cae chwarae wedi trafod y goeden fawr yn ddiweddar a'u bod wedi penderfynu gwaredu'r goeden, rag ofn iddi ddisgyn ac achosi niwed i rywun. Adroddodd ymhellach fod y pwyllgor wedi cael cyngor gan goedwigwyr ac wedi derbyn dau amcan bris:

(1) £3,000 - £3,500 a

(2) £4,000 - £4,500

am wythnos o waith i 2 weithiwr.

Bydd hyn yn golygu mwy o haul ar y cwrt pêl fasged. Amcan bris ar gyfer cert pêl fasged yw £10,000. Mae'r pwyllgor am gael sgwrs hefo Ms Gill Jones o Fethesda er mwyn ei gynllunio'n iawn. Mae'r gwaith o dwtio'r cae chwarae wedi dechrau ac fe fydd angen contractwyr i wneud gwaith pellach.

Nododd Thomas Victor Jones fod coed mawr ochr arall i'r ffens. Awgrymodd fod y rhain yn cael eu torri hefyd cyn iddynt fynd yn rhy fawr.

Nododd Hywel James Sinclair Evans fod diwrnod twtio'r cae chwarae i ddod eto'n fuan.

Unrhyw Fater Arall

Nododd y Clerc fod Noson Gremnogau yn y pentref ar 20.02.24

Nododd y Clerc fod gwahoddiad wedi dod gan y mudiad Perthyn sydd yn fudiad sydd yn gyfrifol am warchod y Gymraeg a'i helpu i ffynnu. Mae gwahoddiad i ddatgan cefnogaeth fel Cyngor Cymuneddi gryfhau'r Gymraeg yn yr ardal ac i gyd-weithio i gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r mudiad.

Taliadau I'w Cymeradwyo

Osian Parry (gwaith torri a thwtio) £2400

Ann Llwyd – Cyfieithydd £70

Cyflog y Clerc £416